# *Cyngor Tref Pontyclun Town Council*

## Cais am Grant

Rydym yn croesawu ceisiadau am arian grant yn bennaf gan grwpiau cymunedol sydd wedi'u lleoli yn ardal Cyngor Tref Pont-y-clun.

Amcanion y Cyngor yw:

1. I annog trigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol
2. I wella'r economi leol
3. I wella'r amgylchedd lleol
4. I gynnwys y rhai llai cyfoethog yn ein cymuned
5. I feithrin ymgysylltiad pobl ifanc ym mywyd ein cymuned

Trwy ddarparu cyllid grant byddwn yn chwarae ein rhan wrth gefnogi bywiogrwydd grwpiau cymunedol a gallu pobl leol i fod yn rhan o grwpiau o'r fath.

## Pwy a sut byddwn yn cefnogi?

- Mae'r Cyngor yn cymeradwyo grantiau ar sail chwarterol gyda dyddiadau cau ar gyfer pob chwarter ar ddiwedd mis Mai, Awst, Tachwedd a Chwefror.
- Gan fod y Cyngor yn dymuno canolbwyntio ar gefnogi grwpiau Cymunedol lleol, bydd grantiau ar gyfer sefydliadau “cenedlaethol” yn cael eu hystyried ym mis Mawrth oni bai bod gan y sefydliad gysylltiadau lleol cryf neu fod angen dybryd am benderfyniad amserol.
- Gall sefydliadau masnachol wneud cais ond bydd grwpiau cymunedol ac elusennau yn cael blaenoriaeth.
- Ni fydd y Cyngor yn rhoi arian at ddibenion gwleidyddol, a dim ond un grant a roddir i fudiad mewn blwyddyn ariannol.
- Uchafswm y grant y byddem fel arfer yn cynnig ar gyfer prosiect neu sefydliad yw £500.
- Mewn amgylchiadau eithriadol gall y Cyngor gefnogi grantiau dros £500. Dylai ymgeiswyr am y fath lefel o gyllid gysylltu â'r Clerc a all roi cyngor ar sut i wneud cais.

Wrth benderfynu ar ddyraniad grantiau, byddwn yn ystyried y meini prawf canlynol: -

1. Ydy'r sefydliad wedi'i leoli yn ardal y Cyngor Tref a/neu yn cefnogi ein trigolion?
2. Bydd grantiau at ddiben penodol yn cael blaenoriaeth dros rhai i gefnogi gweithgareddau cyffredinol y sefydliad;
3. A fydd y grant yn galluogi mwy o bobl leol i gymryd rhan yn y sefydliad a/neu wella profiad y defnyddwyr.
4. A all y grŵp ddangos tystiolaeth o werth, effaith ac ymgysylltiad cymunedol clir?
5. Sut bydd y grant yn eich galluogi i gefnogi un neu fwy o amcanion y Cyngor?
6. Y gyllideb sy'n weddill a grantiau blaenorol a wnaed i'r sefydliad sy'n gwneud cais

Os oes angen cymorth arnoch i lenwi'r ffurflen, cysylltwch â'r Clerc Julius Roszkowski ar 01443 238500 neu ebostiwch
clerk@pontyclun-cc.gov.wales

# Ffurflen Gais

**Eich Sefydliad**

| | |
|---|---|
| Enw’r sefydliad | |
| Diben y sefydliad | |
| Nifer y cyfranogwyr / aelodau | |
| Nifer y cyfranogwyr / aelodau sy’n byw yn ardal **Cyngor Tref Pontyclun**: Pontyclun, Brynsadler, Talygarn, Meisgyn, Cefn yr Hendy, Groesfaen | |
| Grŵp oedran cyfranogwyr / aelodau | |

**Eich Cais**

| | |
|---|---|
| Pam mae angen grant arnoch chi? | |
| Beth yw cyfanswm cost eich gofynion? | |
| A fydd y grant yn cynhyrchu refeniw? Os felly, faint yw’r refeniw arfaethedig? | |
| Am faint o arian ydych chi’n gofyn I Gyngor y Dref? | |
| Pwy fydd yn elwa o'r grant hwn? | |
| Sut bydd y grant yn cefnogi cyflawni amcanion Cyngor y Dref? | |

Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi ddarparu rhagor o wybodaeth i gefnogi'ch cais, megis costau; eich cyfrifon incwm a gwariant diwethaf a’ch cyfansoddiad neu nodau ac amcanion

**Amodau Grant:**

Mae ceisiadau am grantiau yn amodol ar yr amodau safonol canlynol:

- Gall Cyngor Tref Pontyclun roi manylion y sefydliad ar wefan y Cyngor Cymuned er mwyn i aelodau'r cyhoedd allu cysylltu â nhw yn y dyfodol.
- Mae buddiolwyr yn cytuno y byddant yn cyfeirio at gefnogaeth y Cyngor yn eu cofnodion / deunyddiau hyrwyddo.
- Gofynnir i fuddiolwyr sy’n derbyn mwy na £200, ac nad ydynt eisoes yn gwneud gweithgareddau sydd o fudd i’r gymuned ehangach, ymgymryd â rhai, e.e. codi sbwriel.
- Telir grantiau bob amser yn uniongyrchol i gyfrif banc y sefydliad buddiolwr (byddwn yn gofyn i grwpiau llwyddiannus am eu manylion)

Gan ddibynnu ar natur y cais, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i osod amodau eraill

**Eich manylion ar gyfer gwefan Cyngor Tref Pontyclun**

| | |
|---|---|
| Enw’r sefydliad | |
| Disgrifiad byr o'r sefydliad, y dyddiad cyfarfod, amseroedd a lleoliad | |
| Enw cyswllt a swyddogaeth | |
| Cyfeiriad e-bost cyswllt | |
| Rhif ffôn cyswllt | |
| Cyfeiriad gwefan – os yn berthnasol | |

**Eich manylion cyswllt at ddibenion y cais (os yn wahanol i’r uchod)**

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Rhif ffôn cyswllt | |
| Cyfeiriad cyswllt | |
| Cyfeiriad e-bost | |